**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**DEMOCRATIC SERVICE COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD MAWRTH, 3 MEHEFIN, 2014**

**10.00 a.m. TUESDAY, 3 JUNE, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

***Noder y man cyfarfod os gwelwch yn dda/Please note the venue***

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**(01341) 424301**

GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 27.05.14

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

**AELODAETH / MEMBERSHIP (15)**

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Linda Ann Wyn Jones
Dilwyn Morgan
Michael Sol Owen
Mair Rowlands
Mandy Williams-Davies

**Annibynnol / Independent (4)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Tom Ellis
Jean Forsyth
Anne Lloyd-Jones

**Llais Gwynedd (3)**

Anwen Davies
Gweno Glyn
Jason Humphreys

**Llafur / Labour (1)**

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

**Aelod Ex-officio / Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor / Chairman of the Council
Y Cynghorydd / Councillor Dewi Owen

## RHAGLEN

### 1. ETHOL CADEIRYDD

I gadarnhau penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 1 Mai 2014 i ail-ethol Y Cynghorydd Lesley Day yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

### 6. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2014 fel rhai cywir (copi yma – papur **melyn**)

### 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (copi yma – papur **pinc**)

### 8. GWE DDARLLEDU

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (copi yma – papur **glas**)

### 9. CYFLOGAU AELODAU

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanethau Democrataidd (copi yma – papur **eog)**

### 10. YMGYSYLLTU EFO AELODAU

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (copi yma – papur **gwyrdd)**

### 11. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

I ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (copi yma – papur **lelog)**

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 18/3/14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Jean Forsyth, Gweno Glyn, E. Selwyn Griffiths, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Gareth Thomas a Mandy Williams-Davies.

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Gofal Cwsmer)

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd Peter Read (ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen)

**Swyddogion:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro – ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Thomas G. Ellis, Jason Humphreys, Anne Lloyd Jones, Charles W. Jones a Linda Ann Wyn Jones.

## 1. CROESO

Estynnwyd croeso i'r Cynghorydd Gweno Glyn a oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn am y tro cyntaf.

## 2. CYNRYCHIOLYDD I FYNYCHU'R PWYLLGOR SAFONAU

Nodwyd bod gwahoddiad wedi ei ymestyn i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ar y 7fed o Ebrill. Adroddwyd nad oedd yn bosib i'r Is-Gadeirydd fynychu'r cyfarfod felly gofynnir barn y Pwyllgor os dylai aelod arall fynychu'r cyfarfod fel cynrychiolydd.

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd Selwyn Griffiths fel cynrychiolydd o'r Pwyllgor i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ar y 7fed o Ebrill efo'r Cadeirydd.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2013, fel rhai cywir.

## 5. ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Croesawyd y Swyddog Monitro i'r cyfarfod.

Adroddwyd bod Gweithgor Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor a sefydlwyd gan y Pwyllgor Archwilio i gynorthwyo yn y gwaith o adolygu'r cyfansoddiad, yn ymgynghori hefo budd-ddeiliaid perthnasol. Nodwyd bod y Gweithgor yn dymuno derbyn barn y Pwyllgor ar rannau o'r Cyfansoddiad a oedd yn ymdrin â hawliau a gweithrediad y Cyngor Llawn ynghyd â'r rheolau ar hawliau aelodau i gael mynediad at wybodaeth.

Cafwyd trafodaeth ar y materion a restrwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD cyflwyno barn y Pwyllgor i'r Gweithgor Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor fel a ganlyn:**

- **Peidio â gwahanu rôl ddinesig y Cadeirydd oddi wrth y gwaith o lywyddu yng nghyfarfodydd y Cyngor;**
- **Bod y Pwyllgor yn gyffredinol yn erbyn gosod terfyn amser ar gyfarfodydd o'r Cyngor Llawn;**
- **Cytuno y dylid cyfyngu'r gallu i ymuno hefo pwyllgorau o bell i gyfarfodydd lle nad yw'n hanfodol derbyn penderfyniad buan;**
- **Newid y canran gofynnol o aelodau i arwyddo cynnig i ddiswyddo Arweinydd y Cyngor er mwyn ei ystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn o 15% i 20%;**
- **Y dymunir cadw'r trefniant o gael Aelod Cabinet yn cyflwyno adroddiad o flaen y Cyngor ac ateb cwestiynau a dylid adeiladu rhywbeth yn y rheolau gweithdrefn i'w rheoli;**
- **Cefnogaeth y Pwyllgor i ganiatáu cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn o fewn amodau caeth;**
- **Bod y Pwyllgor yn gefnogol i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd a'i bwyllgorau ond yn pryderu o ran caniatáu ffilmio gan nad oedd rheolaeth o'r defnydd ond ni ddymunir amharu ar hawliau'r cyhoedd;**
- **Bod y Pwyllgor yn gyffredinol gefnogol o reol gweithdrefn yn caniatáu i aelod fod yn absennol am resymau teuluol ond dylid oedi cyn manylu sut y bydd yn gweithio nes derbyn canllawiau Llywodraeth Cymru, pryd rhoddir ystyriaeth i'r mater gan y Pwyllgor;**
- **Cefnogaeth y Pwyllgor i gael blaen raglen waith ar gyfer y Cabinet, Y Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor a diweddarir yn gyson gyda manylder o ran cynnwys yr eitemau;**
- **Yn fodlon efo'r drefn ar gyfer penderfyniadau aelodau unigol o'r Cabinet ond argymhellir y dylid ymgynghori efo Pencampwyr yn ogystal pan fo'n briodol;**
- **Bod trefniadau hawliau mynediad aelodau'r Cyngor at wybodaeth yn addas.**

## 6. HYGYRCHEDD PENCADLYS Y CYNGOR

Croesawyd y Cynghorydd Peter Read i'r cyfarfod.

Adroddwyd bod cwmni *Access All Areas* wedi cynnal archwiliad manwl i bob agwedd o hygyrchedd yn y prif swyddfeydd. Ymgynghorwyd ar eu hargymhellion gyda'r Cynghorydd Peter Read a nodwyd bod rhestr derfynol o welliannau a argymhellir ynghlwm i'r adroddiad yn Atodiad A.

Nododd y Cynghorydd Peter Read bod yr addasiadau a gytunwyd yn ymateb i lawer o'r problemau a oedd yn bodoli ym Mhencadlys y Cyngor.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed yr angen am ddwy lolfa i'r aelodau, nodwyd bod y lolfa islawr yn cynnig man gweithio i aelodau ac ar ddiwrnodau pan gynhelir cyfarfod y Cyngor Llawn nad oedd un lolfa yn ddigonol.

Nododd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer bod yr addasiadau a gytunwyd yn cynnig datrysiad realistig ac y dylid edrych ar ddefnydd y ddwy lolfa rhag gwastraffu gwagle prin mewn adeg o gynni ariannol.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Peter Read am ei gyfraniad.

**PENDERFYNWYD argymell:**

**(i) Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r rhaglen o argymhellion yn Atodiad A, er mwyn sicrhau fod y Pencadlys yn hygyrch i ymwelwyr;**

**(ii) Bod y Cyngor yn ail-ddynodi'r Lolfa ar y llawr cyntaf fel y brif Lolfa Aelodau gan sicrhau bod mynediad hygyrch i bob Aelod ar y ddarpariaeth yma.**

## 7. GWE DDARLLEDU

Adroddwyd y cyflwynwyd diweddariad ar y trafodaethau yng nghyswllt gwe-ddarlledu rhai cyfarfodydd yn y cyfarfod diwethaf. Cyflwynwyd rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cyflwyno gwe-ddarlledu yn ogystal â diweddariad o ran y trefniadau ariannu. Pwysleisiwyd bod y cyfnod o dreialu a darparu hyfforddiant i aelodau yn hynod bwysig.

Nodwyd y bwriedir nodi neges ar y sgrin pan we-ddarlledir cyfarfodydd lle nad oedd angen cyfieithydd ar gyfer y rhai oedd yn bresennol yn yr ystafell gyfarfod, yn esbonio nad oedd cyfieithiad ar gael. Nododd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer yn yr hinsawdd ariannol ei fod yn anodd cyfiawnhau darparu cyfieithydd lle nad oedd sicrwydd bod defnydd o'r gwasanaeth.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed penodi darparwr, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y bwriedir penodi darparwr o dan y Cytundeb Fframwaith a gwaetha'r modd, nid oedd cwmnïau lleol ar y rhestr.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a gynhelir ym Mhwllheli neu Dolgellau, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol nad oedd offer gwe-ddarlledu yn y lleoliadau yma ac os penderfynir bod eitem o bwys sylweddol i drigolion, y byddai modd ond dim rheidrwydd i ystyried symud y cyfarfod i Gaernarfon. Ychwanegodd yr oedd angen pwyso a mesur y budd o we-ddarlledu yn erbyn yr hwyluster o ran teithio i'r cyhoedd.

Awgrymwyd y dylid treialu trefn o alluogi'r cyhoedd i gofrestru ymlaen llaw eu dymuniad i dderbyn cyfieithiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed nifer o gyfarfodydd lle nad oedd aelod di-gymraeg, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol bod aelodau'r Cabinet yn ddwyieithog yn ogystal â'r swyddogion felly os nad oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod nid oedd angen cyfieithydd.

Nododd aelod ei dymuniad i gyfieithu trafodaethau ym mha bynnag iaith a ddefnyddir. Mewn ymateb, nodwyd bod y drefn o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg wedi dod i ben ers peth amser ac na fyddai'n bosib cyfiawnhau'r gost ychwanegol yn yr hinsawdd ariannol.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) treialu trefn o alluogi'r cyhoedd i gofrestru ymlaen llaw eu dymuniad i dderbyn gwasanaeth cyfieithu ar y gwe-ddarllediad gan ei adolygu ar ôl asesu'r defnydd o'r gwasanaeth dros amser.**

## 8. GWEFANNAU I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn rhoi diweddariad o'r amserlen a sefyllfa ariannu ar gyfer darparu grant o hyd at £500 yr un i Gynghorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan.

Nododd aelod bod Cyngor Tref Blaenau Ffestiniog wedi manteisio ar y grant a derbyniwyd amcan bris isaf o oddeutu £2,000 ar gyfer datblygu gwefan. Nododd ymhellach, oherwydd y gost y dylid hybu Cynghorau Tref a Chymuned i gydweithio gan ei fod yn orfodol i gyhoeddi cofnodion Cynghorau Tref a Chymuned ar y rhyngrwyd.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod 2014/15.**

## 9. YMGYSYLLTU EFO AELODAU

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol yn unol â dymuniad y Pwyllgor cynhaliwyd ymgynghoriad gydag aelodau ynglŷn â threfniadau ymgysylltu'r Cyngor yn gyffredinol yn ogystal â'r cyswllt efo cynghorwyr. Adroddwyd bod sylwadau cadarnhaol wedi eu derbyn ond bod pocedi o broblemau wedi eu hamlygu megis diffyg defnydd o gynghorwyr lleol fel ffordd o roi a derbyn gwybodaeth.

Nodwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad bod y camau canlynol yn cael eu cymryd:

- Trafod fformat Rhaeadr efo'r Uned Gyfathrebu er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i aelodau;
- Trafodaeth efo'r Grŵp Rheoli ynglŷn â'r rhwystrau i rannu gwybodaeth efo'r aelodau, er mwyn gwella'r sefyllfa;
- Cynghorwyr i dderbyn cyswllt i ddatganiadau rhagweithiol i'r Wasg ac ymgeisir i rannu cyswllt i ddatganiadau ymatebol cyn eu cyhoeddi;
- Bwriedir cynnull grŵp o Gynghorwyr a Phenaethiaid i gyfarfod er mwyn trafod ymhellach a chyd-gynllunio unrhyw gamau nesaf yng nghyswllt rôl yr aelodau o bontio rhwng y Cyngor a thrigolion Gwynedd.

Nododd aelod ei fod yn croesawu sefydlu grŵp o Gynghorwyr a Phenaethiaid i drafod y sefyllfa.

Nododd aelod bod y Fforymau Ardal yn gyfle i aelodau drosglwyddo negeseuon a dderbyniwyd gan eu hetholwyr i'r swyddogion a'r aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.00pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **3 Mehefin, 2014** |
| **PWNC** | **Adroddiadau gan Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar y bwriadau ar gyfer cynhyrchu adroddiadau blynyddol aelodau** |
| **AWDUR** | **Geraint George<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Mae'r pwyllgor yn ymwybodol o'r rheidrwydd sydd ar y Cyngor i wneud trefniadau i aeldoau fedru cynhyrchu adroddiad blynyddol os ydynt yn dymuno er mwyn cefnogi cyfathrebu rhwng aelodau etholedig a'r cyhoedd, mewn geiriau eraill trwy gyflwyno gwybodaeth ffeithiol o weithgareddau. Y flwyddyn diwethaf, penderfynwyd rhedeg peilot, gyda Chadeirydd y pwyllgor hwn a'r Cynghorydd Ioan Thomas, yr Aelod Cabinet, yn cynhyrchu adroddiadau o'r fath.

2. Yn ogystal, gwirfoddolodd amryw o aelodau eraill i gynhyrchu adroddiadau blynyddol ac arweiniodd hyn at gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol gan 8 o aelodau, gan gofio mai un dull yn unig yw'r adroddiadau blynyddol o fod yn cyfathrebu gyda'r etholwyr. Tra dewisodd y Cyngor i'w redeg fel peilot, cymerodd amryw o gynghorau eraill lein gadarnach ar y mater gyda disgwyliad clir ar aelodau i gynhyrchu adroddiad o'r fath.

3. Un ffactor pwysig yma yw'r cyswllt rhwng hwn â datblygiad y Siarter Aelodau, gyda chynyrchu'r adroddiadau yn arwydd pendant o gynnydd. Yn ogystal, mae'n rhaid cydnabod mai ychydig o wybodaeth sydd yn cael ei ddarparu i drigolion am waith cynghorwyr.

4. Mewn adroddiad arall sydd gerbron y pwyllgor hwn, rwy'n esbonio'r bwriad i ddwyn sylw penodol at waith aelodau mewn rhifyn o Newyddion Gwynedd, y rhifyn lle y cyhoeddir cyflogau aelodau. Yn amodol ar farn y pwyllgor, y bwriad yw y byddwn yn dweud yn benodol a yw aelod wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol neu beidio yn y rhifyn hwnnw.

5. Mae profiad y cynghorwyr a gymerodd ran yn y peilot y flwyddyn diwethaf wedi arwain at gynhyrchu templed gyda pheth o'r wybodaeth wedi ei baratoi ymlaen llaw i alluogi aelodau i gwblhau'r adroddiadau'n haws. Mae copi o'r templed arfaethedig ar gyfer Adroddiadau Blynyddol 2013/14, wedi ei ddrafftio yn enw Cadeirydd y pwyllgor ynghlwm fel Atodiad 1.

6. Ceisir barn y pwyllgor ar y cynigion a'r templed arfaethedig.

ATODIAD 1

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# 2013/14

**Cynghorydd:** Lesley Day **Grŵp:** Annibynnol

**Ward:** Garth

**Rol a chyfrifoldebau:**
Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac aelod o'r Cyngor, Pwyllgor Craffu Corfforaethol, a'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL | ABSENNOL | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 4 | 0 | 0 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 4 | 0 | 1 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 | 0 | 0 |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | 1 | 0 | 0 |

Canran Presenoldeb: 93%

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
*e.e. Fforwm Craffu*
*Ymchwiliad Craffu*
*Gweithdy Cynllun Strategol*
*Gweithdy Arbedion*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**
*e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
*Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru*
*Ysgol Hirael (Llywodraethwyr Ysgol)*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**
*e.e. Cyd-Gyfarfod Swyddogion Cefnogi Aelodau / Arweinyddion Cefnogi Aelodau*
*Ymddiriedolaeth Prawf Gogledd Cymru*

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | |
|---|---|
| Data Perfformiad Awdurdod ac Ysgolion | 10 / 4 / 2013 (am) |
| Llywodraethu Ysgol a Diogelu Plant | 10 / 4 / 2013 (pm) |
| Polisi Gosod Tai a Chyfrifoldebau Statudol | 18 / 6 / 2013 |
| Materion Priodoldeb ac Apeliadau Cynllunio | 03 / 7 / 2013 |
| Panel Rhiantu Corfforaethol | 08 / 1 / 2014 |

| **Ychwanegol** | |
|---|---|
| I-pad | 20 / 6 / 2013 |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | 02 /10/ 2013 |
| Delio gyda'r Wasg | 21 / 2 / 2014 |

Cyfanswm nifer o oriau: 24

| |
|---|
| **Cynhaliwyd y gweithgareddau etholaethol canlynol:** |
| **Cynhaliwyd y mentrau a'r gweithgareddau arbennig canlynol:** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **3 Mehefin, 2014** |
| **PWNC** | **Gwe Ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau gwe-ddarlledu** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, cyflwynwyd rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r gyfundrefn: gwe-ddarlledu, sef:-

| **DYDDIAD** | **GWEITHGAREDD** |
|---|---|
| Diwedd Mawrth 2014 | Derbyn tendrau terfynol ar gyfer cynigion i ddarparu gwasanaeth gwe-ddarlledu i'r Cyngor |
| Diwedd Ebrill, 2014 | Dyfarnu cytundeb dwy flynedd i'r cwmni llwyddiannus |
| Mai i Medi 2014 | Cyfnod o dreialu i gynnwys:-<br>• Arddangosiad o'r drefn i aelodau'r pwyllgor ac aelodau eraill<br>• Sesiynau hyfforddi i aelodau a swyddogion ar y gyfundrefn<br>• Recordio cyfarfodydd heb eu darlledu eto er mwyn ei brofi |
| Medi i Rhagfyr 2014 | Darlledu cyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor Cynllunio (pan y cynhelir y cyfarfod hwnnw yng Nghaernarfon) |
| Ionawr 2015 ymlaen | Gweithredu trefn llawn o ddarlledu'r cyfarfodydd a ganlyn yn rheolaidd:-<br>• Cyngor llawn<br>• Pwyllgor Cynllunio (pan y cynhelir y cyfarfod hwnnw yng Nghaernarfon)<br>Adolygu rhaglenni gwaith y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu i ddefnyddio'r gweddill o oriau gwe-ddarlledu'r Cyngor<br>Ystyried hefyd a oes materion penodol y mae'r Cyngor am eu gwe-ddarlledu – ee negeseuon ar faterion o bwys |
| Medi 2015 | Cychwyn proses o adolygu'r defnydd o'r gwasanaeth er mwyn dechrau asesu ei barhad ar derfyn y cytundeb presennol |

2. Erbyn hyn, mae'r cytundeb ar gyfer y gwaith wedi ei osod, gyda chwmni Public-i, y prif gwmni sydd yn gweithredu yn y maes hwn yng Nghymru wedi eu penodi i redeg trefn ar gytundeb dwy flynedd. Bydd un o swyddogion Public-i yn y cyfarfod i wneud cyflwyniad i'r pwyllgor ar y gyfundrefn a'r rhaglen ar gyfer ei gyflwyno allai edrych fymryn yn wahanol i'r rhaglen a amlinellwyd uchod.

3. Bydd y pwyllgor yn ymwybodol o grant Llywodraeth Cymru sydd wedi cefnogi'r datblygiad hwn. Mae cyllid yn awr yn ei le ar gyfer ariannu'r cytundeb dwy flynedd a bydd yn rhaid i'r Cyngor fonitro defnydd ac effeithiolrwydd y system er mwyn penderfynu ar ddefnydd y system y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw.

4. Gwahoddir sylwadau'r pwyllgor

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **3 Mehefin, 2014** |
| **PWNC** | **Cyflogau Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru Aelodau ar y gofynion cyhoeddi ac adrodd ar fwriadau'r Cyngor o ran cwrdd â'r gofynion hynny** |
| **AWDUR** | **Geraint George<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**GOFYNION CYHOEDDI**

1. Mae cyflogau aelodau etholedig yn fater o ddiddordeb cyhoeddus amlwg. Wrth gwrs, pennir y cyflogau hynny gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ffaith sydd yn pellhau'r penderfyniad ar yr union gyflogau oddi wrth y cynghorwyr eu hunain, mater y bu'r Cyngor hwn ac eraill yn pwyso amdano ers blynyddoedd.

2. Wrth gyhoeddi'r cyflogau hynny, mae'r Panel Annibynnol yn gosod rhai cyfrifoldebau ar y Cyngor o ran cyhoeddi'r cyflogau a delir. Mae dwy elfen i hyn:-

| GOFYN | AMSERLEN |
|---|---|
| Cyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau aelodau y bwriedir eu talu yn 2014/15 | Erbyn 31 GorffennaF |
| Cyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau a'r treuliau a dalwyd i aelodau yn ystod 2013/14 | Erbyn 30 Medi |

**Y BWRIADAU CYHOEDDI**

3. Erbyn 31 Gorffennaf, gobeithio y bydd y cyfan o'r penodiadau i swyddi sydd yn cario cyflog ychwanegol, wedi ei wneud a felly bydd yn bosib cyhoeddi bwriadau'r Cyngor erbyn hynny gan wneud hynny trwy wefan y Cyngor.

4. O ran gwybodaeth am daliadau 2013/14 y bwriad eleni eto fydd eu cyhoeddi mewn rhifyn o Newyddion Gwynedd, os yw'r amserlen yn caniatáu. Fodd bynnag, mae'n deg nodi y mynegwyd peth pryderon y flwyddyn diwethaf bod y wybodaeth wedi ei gyhoeddi allan o'i gyd-destun.

5. Y bwriad eleni yw bod Newyddion Gwynedd yn cynnwys adran ar waith aelodau, yn esbonio eu gwaith a'u cyfrifoldebau gwahanol ymysg pethau eraill gyda'r wybodaeth am y cyflogau ac os yw aelod wedi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol neu beidio.

**SYLWADAU**

6. Gwahoddir barn y pwyllgor ar y bwriadau hyn

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **3 Mehefin, 2014** |
| **PWNC** | **Ymgysylltu efo Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar drafodaethau diweddar a chynigion pellach ar wella ymgysylltu gydag aelodau** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Bydd aelodau'n ymwybodol iawn o'r rôl allweddol y maent yn ei chwarae ym mherthynas y Cyngor â thrigolion y sir. Bydd y rôl hwn yn dod yn fwy pwysig dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf wrth i'r Cyngor wynebu dewisiadau anodd ar y ffordd ymlaen. O ganlyniad, mae cyfathrebu ac ymgysylltu da gydag aelodau yn allweddol.

2. Adroddwyd i gyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar ganlyniadau gwaith cychwynnol ar asesu sut mae gwella trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu gydag aelodau. Bydd aelodau yn cofio bod hyn wedi cynnwys holiadur ymysg aelodau a hefyd gweithdai a gynhaliwyd ym Mhorthmadog a Bethel.

3. Canlyniad y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf oedd bod lle i wella trefniadau gwybodaeth a chyfathrebu a bod angen adeiladu ar rai enghreifftiau o ymarfer da. Rhan o hynny oedd bod pob aelod yn medru derbyn copi o datganiadau i'r wasg gan y Cyngor ac mae pob aelod wedi derbyn e-bost gan yr Uned Gyfathrebu i alluogi hynny

4. Yn ogystal, cytunwyd gyda'r awgrym o ddwyn grwp o gynghorwyr a swyddogion ynghyd i drafod ymhellach a chyd-gynllunio unrhyw gamau nesaf. Cyflwynwyd adroddiad i'r diben hwn i Grwp Rheoli'r Cyngor sydd wedi croesawu'r symudiad ac wedi enwebu rhai o'u plith i eistedd ar y grwp.

5. Mae trefniadau ar y gweill i gynnull y grwp ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, mae bwriad cynnal sesiwn hyfforddi / datblygu ar rôl cynghorwyr mewn cyfnod o newid mawr. Gobeithir y bydd hyn o gymorth i aelodau yn eu rôl o arwain eu cymunedau dros y blynyddoedd anodd sydd yn ein wynebu. Cynhelir y sesiwn ar 2 Gorffennaf; rhennir mwy o wybodaeth pan fydd y trefniadau yn fwy pendant.

6. Gwahoddir sylwadau'r pwyllgor ar y bwriadau hyn.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **18 Mawrth, 2014** |
| **PWNC** | **Cyfweliadau Datblygu Personol** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ar drefniadau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Bydd y pwyllgor yn ymwybodol bod yn rhaid i'r Cyngor i gynnig trefn lle mae aelodau yn cael cynnig cyfweliad datblygu personol. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru, 2011 yn mynnu bod pob cyngor yn cynnig proses i aelodau asesu eu hanghenion datblygu.

2. Mae'r pwyllgor wedi trafod hyn o'r blaen ac, ar gais y pwyllgor, ymwelwyd â'r Fforymau Ardal i gyd i'w hysbysu o hyn i ganfod lefel y diddordeb sydd ymysg aelodau mewn trefn o'r fath. Cafwyd cyfle i esbonio mai nid trefn asesu perfformiad aelod fyddai'r drefn ar gyfer aelod sydd y tu allan i'r Cabinet ond y cyfle am drafodaeth gwbl gyfrinachol ar anghenion datblygu. Roedd yr ymateb yn amrywio gyda rhai yn gweld manteision i drefn o'r fath ac eraill ddim.

3. Mae'r sefyllfa gyda'r Cabinet yn wahanol gan y bydd trefniant ar wahân ar gyfer aelodau Cabinet ac mae hyn yn debygol o gynnwys asesiad o'u perfformiad.

4. Er mwyn i aelodau gael y cyfle i drafod eu datblygiad personol, mae trefniadau wedi eu gwneud bellach i bump o uwch swyddogion y Cyngor baratoi ar gyfer cynnal cyfweliadau ar gyfer unrhyw aelod sydd yn dymuno.

5. Y camau nesaf fydd:-

- Llunio templed y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y cyfweliadau (mae copi o'r templed drafft ynghlwm fel Atodiad 1)
- Anfon llythyr at bob aelod yn eu hatgoffa o'r cynnig i gynnal cyfweliad, yn cynnwys y templed a nodwyd yn uchod gan ofyn i'r aelodau gadarnhau trwy e-bost neu alwad ffon os ydynt am gael cyfweliad o'r fath
- Ar gyfer yr aelodau sydd yn ateb yn gadarnhaol, dosbarthu llythyr yn cadarnhau lleoliad cyfweliad, ac yn amgáu y swydd-ddisgrifiadau aelod sydd yn berthnasol iddynt
- Aelodau yn cael y cyfle i lenwi'r templed os ydynt yn dymuno neu ei ddefnyddio fel nodyn briffio.
- Cyfweliad yn digwydd (cyn diwedd Medi) a chytundeb ar feysydd datblygu a dysgu
- Cyfarfod â'r anghenion hynny o fewn y canllawiau sydd eisoes wedi ei gytuno

6. Gwahoddir sylwadau'r pwyllgor ar y trefniadau arfaethedig hyn.

ATODIAD 1

**Paratoi ar gyfer cyfweliad adolygu datblygiad personol**

**Mae’r ffurflen hon yn cynnig strwythur posib ar gyfer y cyfweliad. Medrwch ei ddefnyddio fel fframwaith i chi feddwl ymlaen llaw neu, os ydych yn dymuno, medrwch ei lenwi a dod ag e i'r cyfarfod.**

**Mae'r ffurflen yn gyfrinachol i chi a'r sawl fydd yn eich cyfweld ar wahân i'r dudalen olaf sydd i'w defnyddio gan swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr i baratoi'ch cynllun datblygu personol a blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer rhaglen hyfforddi'r awdurdod.**

1. **Beth yw fy rolau a'm cyfrifoldebau ar hyn o bryd?** (Er enghraifft, cabinet y cyngor, aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu, cadeirydd, aelod o bwyllgor statudol megis cynllunio neu drwyddedu, cynrychioli'ch ward, arwain y gymuned.)

**2. Pa orchwylion mae rhaid imi eu cyflawni eleni? Beth rwy'n bwriadu ei wneud? Erbyn pryd?**

**3. Beth mae angen imi ei wybod a gallu ei wneud i gyflawni fy rôl a gwireddu fy uchelgeisiau?** (Gall y disgrifiad o'ch rôl, manylion eich rôl a fframwaith datblygu'r cynghorwyr fod o gymorth yma.)

**4. Ym mha agweddau ar fy rôl rwy'n hyderus?**

**5. Ble rwy'n llai hyderus?**

**6. Beth allai fy rhwystro i rhag cyflawni fy rôl?** (Ystyriwch unrhyw faterion personol, cyfundrefnol neu wleidyddol allai fod yn feini tramgwydd.)

**7. Pa ddysgu a datblygu rwyf i wedi'u gwneud eleni?**

**8. Beth rwyf i wedi'i ddysgu a'i gyflawni o ganlyniad i hynny?**

**9. Pa ddysgu a datblygu ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol?** (Yn ôl y tabl isod.)

| **Dyma'r meysydd yr hoffwn i eu datblygu:** | **Y datblygu sydd orau gyda fi** (e.e. ymweld ag awdurdodau eraill, cwrdd â chymheiriaid, gweithdai, e-ddysgu). |
|---|---|
| Medrau (e.e. rheoli cyfarfodydd, dulliau holi, trin a thrafod y cyfryngau). | |
| Gwybodaeth (e.e. côd ymddwyn, proses y cynllunio, cydraddoldeb, polisïau lleol). | |

**Paratoi cynllun datblygu a rhaglen hyfforddi**

| Maes i'w ddatblygu | Sut | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |